Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD – CYF. DLl 106

**Amseru:** Brys – ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20

**Teitl:** Cyd-Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol 2019/20

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Trefn lywodraethol

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae swyddfa'r Comisiynydd (SCHTh) wedi adolygu'r Cyd-fframwaith Llywodraethu Corfforaethol cyfredol mewn ymgynghoriad â Heddlu Dyfed-Powys Police (HDP). Diweddarwyd y Fframwaith ar gyfer 2019/20 er mwyn adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaethau a threfniadau llywodraethu mewnol. Gwnaed mân ddiwygiadau i'r geiriad ac mae dolenni diweddar i ddogfennau eraill wedi'u cynnwys er mwyn sicrhau bod y ddogfen yn hawdd i staff HDP a SCHTh ei defnyddio.

Mae pob diwygiad a wnaed wedi'u nodi o fewn cefndir yr adroddiad a gyflwnwyd i'r Cyd-bwyllgor Archwilio ar 07/03/19. Cymeradwyodd y Pwyllgor y diwygiadau wedi hynny.

**Argymhelliad:**

Gyda chytundeb y Prif Gwnstabl, gofynnir i'r Comisiynydd gymeradwyo'r Cyd-fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer 2019/20.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 08/04/19